Cenn@d

MEDI 14 2022 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 81

‘Yn y flwyddyn y bu farw’r Brenin Usseia, gwelais yr Arglwydd …’ (Eseia 6:1a)

Fel yr oedd marwolaeth Usseia ar ôl teyrnasiad o 52 mlynedd yn ystod oes y proffwyd Eseia yn arwyddo diwedd cyfnod, felly hefyd mae marwolaeth y Frenhines Elisabeth yr Ail yr wythnos diwethaf ar ôl teyrnasiad o 70 mlynedd yn arwyddo diwedd a newid cyfnod.

Does dim gwadu nad ydym yn byw mewn byd gwahanol iawn i’r un pan ddaeth Elisabeth yn frenhines ar orsedd gwledydd Prydain a’i thiroedd ac yn ymerodres ar ymerodraeth oedd yn cyflym ddadfeilio bryd hynny. Bu newid cymdeithasol, crefyddol, gwleidyddol, technolegol, amgylcheddol enfawr yn ystod cyfnod Elisabeth. Ychydig ohonom sydd â chof clir am unrhyw deyrn arall. Roedd hi’n bresenoldeb cyson drwy fywydau’r rhan fwyaf ohonom, ac er iddi weld newid mawr ei hun, roedd wedi gallu parhau â’i thystiolaeth i ffydd a’r gwerthoedd Cristnogol oedd yn bwysig iddi ac yn arhosol ganddi gydol ei bywyd.

Ni allwn wadu y bydd newid mawr eto ym myd yr eglwys a’r gymdeithas yn ehangach yn rhwym o ddilyn ei hymadawiad. Diolchwn y bydd y Brenin goruchaf a thragwyddol, yr hwn y cafodd Eseia gip ar odre ei wisg yn y deml mewn cyfnod o ysgwyd ar seiliau pethau bryd hynny, yn dal i deyrnasu; Iesu Grist, yr un ydyw, ddoe a heddiw ac am byth (Hebreaid 13:8).

Bydd angladd y Frenhines ar 19 Medi yn achlysur pryd y bydd y rhai fydd yn cymryd rhan ac a fydd yn arwain y gwasanaeth yn ceisio rhannu cysur a gobaith wrth gyfeirio cynulleidfa enfawr, fyd-eang, at sail y gobaith hwnnw yn Iesu Grist. Gweddïwn y bydd yr Arglwydd yn defnyddio’r achlysur hwn er clod i’w enw.

Bu coffa am y Frenhines gan nifer o fudiadau Cristnogol ac eglwysi, yn eu plith, gan Paul Williams, Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas y Beibl, y bu’n noddwr iddi er 1952:

‘Gyda marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II rydym wedi colli nid yn unig ffigwr cyhoeddus rhyfeddol, ond hefyd ddylanwad arweinydd Cristnogol uchel ei pharch ac annwyl yn ystod cyfnod o newid rhyfeddol.

‘Ni allwn ddeall bywyd a gwaith y Frenhines heb gyfeirio at ei ffydd Gristnogol. Bu rhan arbennig yn ei gwasanaeth Coroni pryd y cyflwynwyd Beibl iddi, a ddisgrifiwyd ganddi fel y “Llyfr Rheolau ar gyfer bywyd yn ei gyfanrwydd i Dywysogion Cristnogol” a’r “peth mwyaf gwerthfawr y mae’r byd hwn yn medru ei gynnig i ni”. Mae bywyd a thystiolaeth y Frenhines gydol ei bywyd yn dangos yn glir ei bod wedi cymryd y geiriau hyn o ddifrif.

‘Mae ffydd y Frenhines wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i’w theyrnasiad ac i’r genedl. Mynychodd yr eglwys yn wythnosol, gan weddïo a darllen y Beibl. Bu ei ffydd Gristnogol yn arweiniad iddi yn ystod uchafbwyntiau ac isafbwyntiau ei bywyd, ac oherwydd hynny mae wedi gallu bod yn bresenoldeb sefydlog a pharhaus yn ein bywyd cenedlaethol.

‘Rwy’n meddwl mai etifeddiaeth y Frenhines yw ei hesiampl o beth yw gwir wasanaeth a dyletswydd. Bu ei holl fywyd yn un o wasanaeth. Rwy’n meddwl y bydd y Frenhines yn cael ei chofio yn unol â’r geiriau hyn yn Diarhebion 10.7: “Mae’n fendith cofio am rywun cyfiawn”.’

Wedi’r newyddion am ei marw fe ryddhawyd y neges hon gan y Parchedig Evan Morgan, Llywydd Cymanfa Gyffredinol, Eglwys Bresbyteraidd Cymru:

‘Ar ran ein Heglwys, estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â’r Brenin ac aelodau eraill y teulu brenhinol ar farwolaeth ei Mawrhydi, y Frenhines. Diolchwn i Dduw am ei bywyd, a dreuliwyd mewn gwasanaeth a dyletswydd i genhedloedd gwledydd Prydain. Yr oedd yn bresenoldeb cyson yn ein bywydau, fel yr unig Frenhines y bydd y rhan fwyaf ohonom yn ei chofio.

‘Cydnabyddwn gyda diolch ei ffydd Gristnogol, oedd yn gonglfaen i’w bywyd a gysegrwyd i wasanaeth.

‘Fe gofiwn y Brenin a holl aelodau’r teulu brenhinol yn ein gweddïau, yn eu galar a’u colled, a diolchwn i Dduw am ei hymddiriedaeth yn Iesu Grist ac am ei hymroddiad i’r eglwys.’

Ymatebodd Undeb Bedyddwyr Cymru i’r newyddion â’r neges ganlynol:

‘Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn cydymdeimlo’n ddwys â’r teulu brenhinol ar farwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II. Diolchwn am ei gwasanaeth diflino a’i hymroddiad di-ffael i wledydd y Deyrnas Unedig a’r Gymanwlad. Diolchwn yn arbennig am ei thystiolaeth i’r ffydd Gristnogol a’r modd y bu ei hymrwymiad personol i‘r Arglwydd Iesu yn fodd i’w chynnal gydol ei hoes.’

Cyhoeddodd Cymorth Cristnogol y datganiad a’r weddi ganlynol:

‘Rydym yn drist iawn i glywed am farwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines. Anrhydeddwn hi am ei hymroddiad i’n cenedl a diolchwn iddi am 70 mlynedd o wasanaeth ymroddedig. Rydym yn eich gwahodd i weddïo gyda ni.’

Er Cof am Ei Mawrhydi y Frenhines

Dduw ffyddlon,
Cofiwn gyda diolchgarwch
Fywyd a gwasanaeth Ei
Mawrhydi y Frenhines.
Rydym wedi cael ein hysbrydoli
Gan ei hymroddiad a'i ffydd,
Ei hymrwymiad i les ein Teyrnas Unedig,
A'i hymlyniad oes i bobloedd y Gymanwlad.
Wrth inni weddïo dros ei theulu ac ynghyd â
chenhedloedd y Deyrnas Unedig,
Bydded i uniondeb ei gwasanaeth cyhoeddus,
Ei hystyriaeth i les cyffredin
A'i hymrwymiad diysgog i lywodraethu da
Ysbrydoli pawb mewn swyddi cyhoeddus,
Yn ein gwlad ni ac ar draws y byd,
I gynnal hawliau'r holl bobloedd
Wrth geisio cyfiawnder
Ac er mwyn heddwch,
Amen

Sylw o’r seidin
Ei efengyl yw f’angor
Tudalen 2

‘Malwan bach fel fi …’
Tudalen 4

Duw ar waith
Tudalen 7

Sylw o'r seidin

Ei efengyl yw f'angor

Ar lan hen afon Arddu fawr
Fe geisiai glân forwynig
I lanw ystên go drom o ddŵr
Cyn boddi wrth ei chyrchu.

Cyfeiriais yn yr ysgrif ddiwethaf at wres eithafol ganol mis Gorffennaf a hafau poeth yn ystod y 1970au, pryd y byddem yn mwynhau chwarae allan yn blant ardal Llanberis ar hyd y caeau gerllaw Cae Esgob a Mur Mawr. A rhwydd yw hel atgofion am ddringo coed, gosod a chynnau tân i goginio ambell selsigen, wedi ei benthyg o'r ffrij gartref yn ddiarwybod i Mam. A braf yng nghanol y gwres oedd cael chwarae yn yr afon, neu ymdrochi mewn llefydd ac enwau hudolus iddynt, megis Pwll Ni, Pwll Morwyn, a Chae Newydd.

Pwll Morwyn

Dydw i ddim yn gwybod beth yw tarddiad yr enw Pwll Ni, ond yn ddiweddar fe ddysgais beth oedd cefndir yr enw i Bwll Morwyn. Lleolir Pwll Morwyn gerllaw'r tŷ hir neu'r bwthyn oedd yn wreiddiol yn dwyn yr enw Cae Esgob. Saif murddun y bwthyn reit wrth ymyl y bont rêlwê neu'r *viaduct* ar waelod allt Hebron.

O sefyll ar y bont ac edrych i lawr i'r dde cewch glywed sŵn a llif y dŵr yn y Ceunant Bach yn ymarllwys islaw. Mae safle'r hen Gae Esgob yn cynnwys llaethdy, tŷ hir a beudy a chorlan yn ogystal â'r caeau sydd rhwng Afon Hwch, a ffordd Tu Ucha'r Giât, ger Hafod Uchaf. Y ffordd honno sydd yn eich arwain chi draw i Maescwm, a Chwm Dwythwch a gwastadedd Cae Newydd a Chwm Brwynog.

Enw tlws a hanes trist

Bid a fo am yr enwau swynol hyn. Gadewch i ni ddychwelyd at darddiad enw Pwll Morwyn! Mae syllu i lawr i hafn Pwll Morwyn fel syllu ar ryw lecyn hud a lledrith, rhyw arall fyd. Ond wedi holi rhai gwybodusion am hanes lleol Llanberis, cefais ar ddeall bod hanes trist yn gefndir i'r enw a roddwyd ar y llecyn hyfryd a hudolus hwn.

Mae'n debyg fod un o forynion Cae Esgob gynt wedi mynd i drafferthion wrth geisio cyrchu dŵr o'r pwll rhyw fore, ac wedi colli ei throedle ar y llethr serth i lawr at ymyl y dŵr, a'i bod wedi syrthio, disgyn a boddi yno. Hanes trist ar enw tlws ar lecyn oedd yn gyrchfan poblogaidd i lanciau a llancesi ymdrochi.

Fe'm magwyd innau, yn un o chwech o blant, gyda llaw, yn y Cae Esgob newydd, a da dweud fod tenantiaid y ddau le wedi bod â chysylltiadau agos iawn ag achosion Capel Hebron, Cwmbrwynog a Chapel Coch Llanberis.

Cerdded Coed y Ddôl

Wrth ymlwybro ar y ffordd heibio'r Capel Coch o gyfeiriad pentref Llanberis, fe ddowch at Lwyn Celyn, Hafod Lydan, Hafod Bach, lle bu farw fy nhaid yn ŵr gymharol ifanc, ac yna down at Hafod Uchaf. Hon oedd yr annedd olaf at ben ucha'r ffordd, lle bu Anti Maggie, chwaer fy nain, a'i gŵr, Jess Davies, yn byw am rai blynyddoedd.

Erbyn i mi ddod i fyw i Lanbêr yr oedd Maggie a Jess, fel sawl un o gyrion Cwm Brwynog, wedi mudo i lawr i fyw yng Nghoed y Ddôl, chwedl R. Bryn Williams. Coed y Ddôl oedd enw gwreiddiol hen bentre' bach Llanbêr, a bu fy nain a'm hen nain yn byw yn 9 Blaen-ddôl, ar ben draw'r teras hyfryd o dai chwarelwyr a godwyd, a chyrion y dolydd braf oedd yn rhedeg i lawr yr holl ffordd at lan llyn Padarn y pryd hynny.

Diolchgarwch

Peth braf yw gallu camu yn ôl am ennyd. Caf fy llenwi â diolchgarwch i'r rhai a aberthodd lawer dros eu teuluoedd, eu cymunedau ffydd, a'u bro yn wyneb caledi mawr, a gorfod cyflawni mwy nag un swydd i gadw pennau'r teulu uwchlaw dyfroedd tymhestlog a stormydd Cwmbrwynog. Ychydig o foethusrwydd a chysuron bywyd oedd gan y tyddynwyr / chwarelwyr hyn, ond roedd yna gymdeithas glòs, a chydrannu beichiau bywyd, a chydymgynnal rhwng cymdogion yn ôl eu hangen. Roedd cymdeithas yn troi o gylch y capeli, a'r capeli yn dibynnu ar gefnogaeth, anian a chalon y gymdeithas a'u cododd yn y lle cyntaf. Roedd yna gydaddoli a chyd-dynnu, cydweddïo a chydgefnogi o'r naill deulu i'r llall. Braf yndê!

Ar derfyn ysgrif archif o gyfnod Eisteddfod Deiniolen yn dwyn y teitl 'Y Chwarel a'i phobl' atodwyd cyfres o englynion, ac yn eu plith un gan Dewi Arfon:

Fy meibl, hwn a fu'n blaenor – ar fy nhaith,
Llyfr fy Nuw, a'i gyngor
Trwy'r byd, ar derfysglyd fôr
Ei efengyl yw f'angor.

Beth bynnag am foethau a moethusrwydd y byd hwn, bu'r Beibl a'r Efengyl yn sail gadarn i gymdeithas y capel, megis yn y caban tua'r chwarel. Cloir yr ysgrif ag englyn gan Mynyddog sy'n darlunio'n berffaith, siŵr gen i, rai o wragedd ffyddlon yr Arglwydd fu'n cerdded o Sul i Sul i'r seintwar tua Hebron, ger rheilffordd yr Wyddfa:

Gair Duw oedd ei gwir duedd – a'r Iesu
Y rhoes ei gorfoledd
Hyd farw; ac nid oferedd
Rhoi 'Gwraig Bur' ar garreg ei bedd.

Jim Clarke

‘Trysorau Newydd a Hen’

Fy hoff emyn

Yr wythnos hon, Siwan Jones, Rhosllan-erchrugog, sy’n sôn am ei hoff gân o fawl

Creu Llwybrau
Yn ystod y cyfnod clo a’r pandemig, roeddwn yn gwrando ar un gân yn fwy nag eraill. Y gân oedd ‘Way Maker’ gan Leeland Worship. Mae’r gân bellach wedi cael ei chyfieithu i’r Gymraeg gan Rhys Hughes a Steffan Morris o’r ‘Ffynnon’, Llandysul, dan yr enw: ‘Creu Llwybrau’. Dyma ddolen i gyflwyniad o’r gân gan Cadi Gwyn a Meilyr Geraint yng Ngŵyl Llanw 2021: https://youtu.be/R4sMGrSFqo4

Yn y gytgan mae’r geiriau’n adrodd rhai o’r pethau y mae Duw yn eu gwneud a’r hyn ydy Duw ei hun:

> ... cadw addunedau,
> gŵr y gwyrthiau, golau yn y t’wyllwch –
> dyna pwy wyt ti.

Yn ystod amser mor ansicr, roedd cael fy atgoffa pwy ydy Duw yn fendith fawr.

Dydy addunedau Duw byth yn newid. Mewn cyfnod lle roedd cymaint o newid yn y byd, roedd gwybod hyn yn rhoi sefydlogrwydd a sylfeini na all y byd eu rhoi i mi.

Mae Duw yn gwneud gwyrthiau. Pan fydd pethau’n teimlo mor bryderus ac yn edrych yn ddu, mae yna wastad obaith am rywbeth gwell, a dydy adegau anodd na’n sefyllfaoedd personol ni ddim yn rhwystr iddo.

Mae Crist yn oleuni yn y tywyllwch, ac mae golau wastad yn trechu’r tywyllwch.

Nid yn unig bod Duw yn **gwneud** y pethau hyn, ond mae yng **nghraidd pwy ydi o**.

Mae rhan arall o’r gân sy’n mynd fel hyn:

> Er fy ngolwg diffygiol, ti’n brwydro;
> er fy ffydd sydd yn siglo, ti’n brwydro;
> a drosom ni, ti’n brwydro’n ddiddiwedd,
> a drosom ni, ti’n brwydro’n ddiddiwedd.

Y rhan fwyaf o’r amser mae ein bywydau’n anwastad, yn crynu ac yn disgyn weithiau. Dydy hyn ddim yn newid pwy ydy Duw – mae’n brwydro beth bynnag. Mae ein golwg a’n meddyliau ni hefyd yn crwydro oddi wrtho, ac rydyn ni’n gallu mynd drwy gyfnod o anghofio am Dduw. Dydy hyn chwaith ddim yn rhwystr iddo: mae’n dal i frwydro ac yn aros yn ffyddlon.

Mae’r gân hefyd yn sôn am Iesu’n newid bywydau, yn troi llwybrau pobl i gyfeiriad gwahanol, ac yn iacháu calonnau pobl.

Does dim ots pa mor bell yw rhywun oddi wrth Dduw neu beth rydyn ni wedi’i wneud yn ein bywyd, mae Iesu’n gallu dod i’r canol a newid popeth i ni.

Creu Llwybrau
Yma nawr, dy bresenoldeb di;
addolaf di, addolaf di
yma nawr, yn gweithio ynof fi;
addolaf di, addolaf di.

Cytgan:
(Rwyt ti’n) Creu llwybrau, cadw addunedau,
Gŵr y gwyrthiau, golau’n y t’wyllwch –
fy Nuw, dyna pwy wyt ti.

Yma nawr, dy gyffyrddiad di;
addolaf di, addolaf di;
yma nawr, iacháu’n calonnau ni;
addolaf di, addolaf di.

Yma nawr, ti’n newid ’mywyd i;
addolaf di, addolaf di;
yma nawr, yn puro ’nghalon ddu;
addolaf di, addolaf di.

Cytgan

Er fy ngolwg diffygiol, ti’n brwydro;
er fy ffydd sydd yn siglo, ti’n brwydro;
a drosom ni, ti’n brwydro’n ddiddiwedd;
a drosom ni, ti’n brwydro’n ddiddiwedd.

Cytgan

(Fersiwn Cymraeg: Rhys Hughes a Steffan Morris)



I’r Parchg Ddr Rosa Hunt

Genedigol o Malta
Cyd-bennaeth Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd
I’w sefydlu hefyd yn Weinidog Eglwys y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd
Sadwrn, 17 Medi 2022,
3.00 pm.

Mewn teg ardd, ti yw harddaf – eginyn
Y gwanwyn tyneraf ;
Gweiryn o’r ddôl ragoraf;
A rhodd o rosyn yr haf.

Robin Gwyndaf

‘Malwan bach fel fi …’

Penyd ydi’r gyfrol *‘Malwan bach fel fi …’ yn cloddio am aur*, yn ôl Prydwen Elfed-Owens, cyfrol a lansiwyd ganddi ddydd Mawrth yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ym mhabell Cytûn. Disgrifiodd y gyfrol fel ‘penyd’ am iddi fod yn or-feirniadol o’r eglwysi mewn cyfweliad gyda’r cylchgrawn *Cristion*. Y penyd a osododd iddi ei hun oedd chwilio am aur ym mywyd yr eglwysi yng Nghymru, a bu’n holi trigain o bobl amlwg wrth ymchwilio.

Prydwen yw’r falwen fach yn y teitl, gyda llaw, ac roedd yn rhaid esbonio hynny cyn dechrau. Rydw i wedi cyfarfod ambell un oedd wedi camddeall geiriau’r garol a dweud fod ‘Iorwerth mewn preseb’, ond Prydwen yw’r unig un y gwn i amdani oedd wedi deall ‘mawl un bach fel fi’ yn ‘Deuaf atat, Iesu’ fel ‘malwen bach fel fi’. Ond o leia roedd o’n gymorth i gyffesu mai araf i ddysgu ydym ni i gyd, ac mai bwriad y falwen oedd dysgu mwy am yr hyn sydd yn digwydd yn enw Crist yng Nghymru heddiw.

Mae’r gyfrol, dros bedwar can tudalen, wedi ei rhannu yn bum rhan. Mae’r ddwy ran gyntaf yn cael mwy na hanner y gofod, sef rhan ar fugeilio ymarferol a rhan ar ‘danio’r fflam – cenhadu i ddenu’r ifanc a’r gymuned leol’. Yna, rhan fer iawn ar genhadu cyfoes a dwy ran fwy sylweddol ar arweiniad goleuedig a rheoli grymusol. Mae pobl o bob math o draddodiad Cristnogol wedi eu holi ac fe geir cyfraniadau amrywiol iawn yn y gyfrol.

Fe wnaeth Prydwen wahodd pedwar o’r cyfranwyr i’r cyfarfod ym mhabell Cytûn, sef Beti Wyn James, Aled Davies, Rhys Llwyd ac Alwyn Humphreys, a finnau yn

rhyw lun o gadeirio’r cyfan. Un o’r themâu amlwg oedd yn codi o’r gyfrol oedd y syniad o gymuned, nid yn unig natur cymuned ffydd ond sut y mae eglwys i fod yn rhan o gymuned a chymdogaeth. Roedd profiad y tri gweinidog yn ystod y pandemig wedi herio a newid eu hagwedd at gymuned. Gyda rhai’n addoli drwy gyfryngau digidol, eraill yn rhan o gynulleidfa yn yr adeilad, eraill yn byw ymhell, mae dirnad a datblygu cymuned yn her wahanol. Er, ar y cyfan, rhaid dweud fod y syniad o gyfarfod wyneb yn wyneb yn dal yn fwy atyniadol na dim i’r cyfranwyr.

Nodwedd arall sydd yn codi ei phen yn lled aml yn y gyfrol yw natur arweinyddiaeth mewn eglwys. Roedd Prydwen yn bendant iawn fod angen agwedd mwy tebyg i fyd addysg o ran hyfforddi ac atebolrwydd arweinwyr eglwysig. Ond yn y gyfrol roedd ambell esiampl glir o arweinyddiaeth yn cael ei rhannu yn llwyddiannus iawn. Mae’r Tabernacl, Efail Isaf; Eglwys Unedig Seion, Glyn Ceiriog a Caersalem, Caernarfon, yn eglwysi sydd yn eu ffordd eu hunain yn gweld arwain eglwys yn waith tîm yn hytrach nag unigolyn. Dyma holi Rhys Llwyd am y fantais o weithio felly. Pwysleisiodd yntau fod yr eglwys wedyn yn manteisio llawer iawn ar ddoniau gwahanol pobl yn hytrach na disgwyl i’r gweinidog allu troi ei law at bopeth dan haul.

Cafwyd peth trafod hefyd ar y peryglon o ddisgwyl gormod gan y gweinidog a thrwy hynny y perygl i eglwys droi yn gwlt personoliaeth. Mae digonedd o enghreifftiau lle mae llwyddiant eglwys wedi troi o gwmpas personoliaeth liwgar, ddeniadol; yna, pan fo’r person yn gadael, mae’r eglwys yn gwywo.

Pwnc arall a ddenodd sylw oedd lle cerddoriaeth mewn addoliad. Roedd Alwyn Humphreys ac eraill o’r panel yn gweld gwerth arbennig iawn mewn cerddoriaeth i fynegi mawl ac addoliad. Ond fe welai gerddoriaeth hefyd fel cyfrwng i gynorthwyo myfyrdod a defosiwn personol, boed hynny’n emynau neu gerddoriaeth seciwlar. Mae’n gyfrwng sydd yn cynorthwyo rhywun i ddianc rhag cyfyngder geiriau, ac yr oedd cytundeb rhwng pawb na fyddai geiriau fyth yn gallu cwmpasu holl fawredd a rhyfeddod Duw yng Nghrist, er bod yn rhaid cofio mai peth o waith yr eglwys yw ceisio cyfathrebu neges o gariad Duw drwy air a gweithred.

Gobeithio i’r gynulleidfa ddarganfod mymryn o aur yng nghyfraniadau’r gwesteion ym mhabell Cytûn ar y dydd Mawrth hwnnw yn Nhregaron. £10 yw pris y gyfrol ac fe’i cyhoeddwyd gan Prydwen Elfed-Owens ei hun.

John Roberts

Taro’r post

Annwyl Olygydd,

Diolch unwaith eto i’n cyfaill Elfyn Pritchard am ei golofn flasus fisol yn *Cenn@d*. Yn rhifyn 24 Awst, mae’n ein cyfeirio at y weithred Gristnogol o faddau, gan orffen ei sylwadau â’r geiriau: ‘Hawdd, ddwedes i? “I must be joking.”’

Heb os, maddau yw un o’r pethau mwyaf ac anodd y mae’r Arglwydd Iesu a’i Efengyl yn ei ofyn i chi a fi ei wneud. Byddai pawb meidrol, siawns gennyf, yn cytuno â hynny, a byddai’n rhaid i ni fod ar blaned arall i anghytuno!

Mae’n mynd â ni ’nôl at sefyllfaoedd a phroblemau’n deillio o ddau Ryfel Byd o’r ganrif ddiwethaf, sef pwyntiau hollol ddilys a dealladwy – a diolch iddo. Serch hyn, ni chredaf fod yn rhaid mynd ’nôl mor bell!

Rwy’n cofio gwylio rhaglen tua deg mlynedd yn ôl ar yr hyn a alwyd yn ‘Restorative justice’ mewn carchardai, sef rhoi’r cyfle i’r troseddwr wneud iawn am ei drosedd. Dangoswyd un troseddwr a’r dioddefwr yn wynebu ei gilydd ym mhresenoldeb swyddogion y carchar. Roedd y troseddwr wedi treisio’r wraig oedd yn ei wynebu, sawl blwyddyn ynghynt. Yn llawn edifeirwch, ymddiheurodd i’r wraig am ei drosedd, gan gyfeirio at y loes a’r poen yr oedd wedi eu hachosi iddi. Yn rasol a llawn emosiwn, meddai’r wraig yn syml iawn, ‘I forgive you’ a’i gofleidio.

Meddai’r gŵr yn nes ymlaen wrth ddisgrifio’r profiad, ‘I felt the Devil leave me and I was free from his grasp for ever.’

Gyfeillion annwyl, pan faddeuwn i eraill, rydym nid yn unig yn rhyddhau’r troseddwr o’i garchar caeth drewllyd, tywyll. Rydym yn rhyddhau ein **hunain** hefyd!

Wel, Mr Pritchard annwyl, rwyf innau hefyd, fel chithau, am orffen drwy ddyfynnu yn Saesneg: ‘Easier **said** than **done**.’ Ia, rwy’n gwybod!

Gweddïwn am ras, penderfyniad a gwroldeb i’w gyflawni. Mae’n gweithio, medden nhw!

Yn gywir iawn
Iorwerth P Jones
Rhuthun

O'r byd a'r betws

Stormydd Awst a hunllefau'r hydref

Llun: https://www.flickr.com/photos/un_photo/49231644991 Generic (CC BY-NC-ND 2.0)

Wrth i fis Medi garlamu dros y gorwel, byddwn yn ailgydio yn rhaglenni gwaith tymor yr hydref a'r gaeaf, gan anghofio weithiau fod bywydau'r rhelyw yn llifo'n ddi-dor dros gyfnod yr haf – heb wyliau o gwbl. Diolch am y rhai sy'n gweithio heb dynnu sylw atynt eu hunain, a dim ond yn gofyn am gyflog teg ac amodau gwaith rhesymol wrth i'r economi fygwth fod mor heriol yn chwarter olaf y flwyddyn hon. Bydd costau byw yn ein brawychu o glywed am brisiau rhagarfaethedig ynni yn benodol a nwyddau sylfaenol bywyd yn gyffredinol. Mae 'na groeswyntoedd stormus ar y ffordd ac ni allwn rag-weld nawr sut bydd hi arnom erbyn y Nadolig.

Cawn gyfle i gymharu profiadau gwyliau teuluol, a chanmol llwyddiant yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Bydd digwyddiadau eraill wedi hawlio sylw, a bu'r papurau Llundeinaidd yn rhoi llawer o ofod i arweinyddiaeth y Blaid Dorïaidd, y rhyfel yn Wcráin, a'r modd bydd patrymau tywydd yr haf yn gofyn cwestiynau sylfaenol am effaith cynhesu byd-eang. Ni all unrhyw wladweinydd amau nad yw llosgi tanwydd ffosil, boed er mwyn trafnidiaeth neu unrhyw ddiwydiant, yn niweidiol, a'i bod yn hanfodol fod gwledydd y byd yn lleihau eu defnydd o unrhyw beth a fydd yn cynyddu difrodi'r ddaear.

Diwedd mis Awst cyhoeddwyd bod yr Unol Daleithiau yn ailgydio yn eu rhaglen o deithio'r gofod a lansio roced i gyfeiriad y lleuad. Digon tebyg fod yna ddadleuon gwyddonol dros gyfiawnhau hyn, gan ddweud bod y ddynoliaeth ar ei hennill ar ôl i'r fath ymchwil a theithio'r gofod ddigwydd. Falle'n wir! Ond beth am yr effaith andwyol ar amgylchedd y ddaear a'r gwenwyn sy'n cael ei ledu yn dilyn y taniad. Onid yw Rwsia yn gorfod derbyn bod yna ddadleuon amgylcheddol i'r rhyfel yn erbyn Wcráin, a bod bygwth defnyddio arfau niwclear yn rhan o'r arswyd hwnnw? Onid yw China ac India yn gweld bod llosgi glo yn benodol yn ychwanegu at y gofid ecolegol? Os yw Pacistan yn gweld llifogydd arswydus yn 2022, beth fyddai'r effaith ar ddinasoedd yn China ac India yn ogystal ag ynysoedd yn y Dwyrain Pell a fyddai'n boddi'n llwyr pe byddai mwy o'r rhewlifoedd yn meirioli a lefel y môr yn codi ychydig fodfeddi yn unig?

Wrth wrando ar yr effaith ar amaethyddiaeth yn Wcráin a Phacistan, cofnodwn fod y cyfyngiadau dŵr ar amaethyddiaeth yn Ewrop yn rhoi ongl wahanol ar yr un arswyd. Sawl eglwys sydd, fel Ebeneser, Caerdydd, yn neilltuo apêl arbennig am y deuddeg mis nesaf i gefnogi elusen **Tir Dewi,** sy'n bwrw iddi i gefnogi ffermwyr yng Nghymru sy'n dioddef o iselder ysbryd, gyda nifer cynyddol ohonynt yn dewis hunanladdiad. Ceir mwy o wybodaeth drwy ymweld â www.tirdewi.co.uk neu ffonio 0800 1214722. Gallwn gefnogi'r apeliadau hyn, boed gartref neu dramor. Wrth wynebu tymor yr hydref, gwnawn hynny'n weddigar ac yn gadarnhaol er lles y ddaear ac o blaid heddwch byd.

Denzil John

O'r Beibl: 15

Y Gwynfydau (8)

'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr,
oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw.'
(Mathew 5:9)

Heddiw rydym yn cyrraedd y seithfed gwynfyd, sydd i'w gael yn Mathew 5:9: 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw.' Mae'n bosibl mai hwn yw'r gwynfyd mwyaf adnabyddus i'r Cymry gan fod Waldo wedi ysgrifennu ei gerdd enwog 'Y Tangnefeddwyr' yn seiliedig ar y geiriau hyn. Ond beth mae Iesu'n ei olygu pan mae'n dweud fod y 'tangnefeddwyr' yn wyn eu byd?

Fel y gwelsom yn ystod yr wythnosau diwethaf, disgrifiad o'r Cristion – yr un sy'n credu yn Iesu – yw'r Gwynfydau. Disgrifiad o'r rhinweddau sydd i nodweddu cymeriad a bywyd y Cristion yw'r rhain. Yn y seithfed gwynfyd mae Iesu'n ychwanegu rhinwedd arall at ei bortread o'r Cristion: mae'r Cristion yn 'dangnefeddwr'.

Beth mae bod yn 'dangnefeddwr' yn ei olygu? Mae beibl.net yn cyfieithu'r gair hwn fel 'yr un sy'n hyrwyddo heddwch' ac mewn ffordd debyg mae'r Beibl Saesneg yn cyfieithu'r un gair fel '*peacemaker*'. Dyma beth yw ystyr 'tangnefeddwr'. Mae'r Cristion i fod yn berson sy'n hyrwyddo ac yn annog heddwch.

Ond sut ydym i wneud hyn yn ymarferol? Wel, yn ein perthynas ag eraill, nid ydym i geisio dial na thalu'r pwyth yn ôl pan mae rhywun wedi gwneud cam â ni. Yn hytrach, rydym i fod yn barod i faddau, hyd yn oed i'n gelynion. Yn ein heglwysi, nid ydym i chwilio am anghydfod, ond rydym i garu ein cyd-aelodau. Yn ein teuluoedd a'n cymunedau, rydym i gael ein hadnabod fel pobl sy'n ceisio cymodi eraill â'i gilydd.

Pam ydyn ni i fyw fel hyn fel Cristnogion? Mae ail hanner y gwynfyd yn ateb y cwestiwn hwn: 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw yn blant i Dduw'.

Un peth sy'n eich taro chi am rai plant ydy pa mor debyg ydynt i'w rhieni. Yn aml, mae un plentyn yn edrych yn debycach i'w dad ac un arall yn debycach i'w fam. Wrth i blant dyfu i fyny, maent yn aml yn dod hyd yn oed yn debycach i'w rhieni.

Rhywbeth tebyg i hyn mae Iesu yn ei ddweud yn ail hanner y gwynfyd hwn. Fel Cristnogion, Duw yw ein Tad. Wrth i ni fod yn 'dangnefeddwyr' yn ein bywydau, y cyfan yr ydym yn ei wneud ydy dod yn debycach i'n Tad. Oherwydd fe yw'r tangnefeddwr mwyaf, fe yw'r arbenigwr mewn heddwch. Er ein bod ni wedi gwrthryfela yn ei erbyn gan ddod yn elynion iddo yn ein pechod, fe wnaeth Duw ffordd i ddod â heddwch rhyngom eto. Bu farw Iesu ar y groes gan wynebu'r pris am ein pechodau er mwyn i ni gael perthynas newydd â Duw. Yn Colosiaid 1:20, mae'r Apostol Paul yn dweud hyn: 'trwyddo ef [Iesu], ar ôl gwneud heddwch trwy ei waed ar y groes, i gymodi pob peth ag ef ei hun, y pethau sydd ar y ddaear a'r pethau sydd yn y nefoedd'.

Heb os, y brif ffordd i fod yn 'dangnefeddwr' heddiw ydy drwy rannu am Iesu ag eraill, gan wahodd pobl i gael heddwch â Duw drwy gredu ynddo. Yn wir, nid oes heddwch pwysicach na'r heddwch hwn.



Cwestiynau i feddwl amdanynt:

1. Beth mae'n ei olygu i fod yn 'dangnefeddwr'? Pam mae hyn yn beth heriol?
2. Pam rydyn ni'n dod yn debycach i Dduw drwy fod yn 'dangnefeddwyr'?

Gwilym Tudur

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 18 Medi am 7.30yh
Sul Heddwch: mae Lisa yn ymweld â chanolfan lloches i ffoaduriaid, a chawn glywed sut mae'r cerddor Carwyn Ellis yn helpu'r llai ffodus

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 18 Medi, am 7:30yb a 4:30yp
Canu cynulleidfaol o gymanfa Peniel, Tremadog.

Sul, 18 Medi, am 12:00yp
Oedfa sgwrs gyda'r gantores *gospel* Nia Price, Rhosan ar Wy

Duw ar waith

Mae Tom Defis newydd ymddeol fel aelod o staff Cymorth Cristnogol ar ôl 29 mlynedd. Cafodd Dyfed Wyn Roberts sgwrs ag ef ar ddiwedd pennod go arbennig.

Wel, Tom, mae'r diwrnod mawr wedi cyrraedd! Sut wyt ti'n teimlo am y peth?

Teimlad rhyfedd, a dweud y gwir, gan fod gwaith Cymorth Cristnogol wedi bod yn weinidogaeth ac yn alwedigaeth, ac yn rhan ganolog o fywyd ac o fywyd y teulu. Mi fydd bywyd yn wahanol, er wrth gwrs y bydd Cymorth Cristnogol yn cael lle amlwg o hyd. Rwy'n digwydd bod yn Drysorydd Cyfundeb yr Annibynwyr ac mae'r Undeb wedi ymrwymo i drafod ymgyrch Cymorth Cristnogol ynglŷn â newid a chyfiawnder hinsawdd ac wedi cytuno i gynnal apêl enwadol i gefnogi Cymorth Cristnogol y flwyddyn nesaf. Ond, fel pawb sy'n ymddeol, mi fydd cyfle i ymlacio, gobeithio.

Beth aiff â dy amser wedi i ti ymddeol?

Bydd yn braf cael rhoi mwy o amser i'r teulu ac yn arbennig yr wyrion Corran a Serian, sy'n dod yn bobl ifanc bellach, a'r ddau fach, Tristan ac Efa. Bydd cyfle i wneud mwy ar ein tyddyn, gobeithio, a chefnogi'r gwaith gofalu am y defaid, y geifr, y moch a'r alpacas.

Mae Canolfan Heol Dŵr yn brosiect i sefydlu canolfan Gristnogol a chymunedol Gymraeg yng Nghaerfyrddin. Fel un o'r ymddiriedolwyr a chadeirydd y ganolfan, bydd llawer o waith i'w wneud yno. Rwy'n aelod o nifer o fudiadau yn sir Gaerfyrddin, felly bydd digon i'w wneud, yn y dyfodol agos beth bynnag.

Ar ôl 29 o flynyddoedd, mae'n siŵr fod gen ti lawer iawn o atgofion? Be ydi'r peth sy wedi rhoi'r mwyaf o bleser iti yn y gwaith?

Rwyf wedi cael pleser mawr yn cydweithio ag ymgyrchwyr, cefnogwyr, yr eglwysi a'r enwadau, yn ogystal â phobl yn y cymunedau, ac mae ymweld ag ysgolion i rannu am y gwaith hefyd wedi bod yn bleser. Y pleser mwyaf yw gweld effaith gwaith ein cefnogwyr yma yng Nghymru ar waith ein partneriaid, a'r newid sydd yn digwydd yn eu cymunedau yn sgil hynny. Mae wedi bod yn fraint cael bod yn rhyw ddolen gyswllt rhwng y partneriaid yng Nghymru a'r partneriaid yn y gwledydd lle mae Cymorth Cristnogol yn gweithio.

Rwyt ti wedi cael cyfle i deithio dramor sawl gwaith i weld gwaith partneriaid Cymorth Cristnogol. Be sy'n aros yn y cof o'r teithiau hynny?

Un o'r pethau rwy wedi'i deimlo yw mai ein braint ni yw cael gweithio gyda'r tlawd a'r rhai sydd dan ormes. Nid gweithio dros y tlawd – nid ni'n rhoi a nhw'n derbyn, ond cydweithio i nerthu'r gwan, codi pobl ar eu traed i gynnal eu cymunedau a



lleihau gormes. Rhai o'r pethau sy'n aros yn y cof: tlodi eithafol yn Affrica ac Asia, canlyniad gormes a thrais yn Guatemala ac yn arbennig ym Mhalestina, effaith trychinebau sy'n taro rhai ardaloedd dro ar ôl tro, fel Haiti a Chanolbarth America.

Ond hefyd, cofio gweld effaith gwaith Cymorth Cristnogol, y llawenydd a'r gwerthfawrogiad gan bobl sy'n derbyn cymorth a chefnogaeth. Gweld plentyn 9 oed wedi gwella o ddiffyg maeth eithafol yn Tanzania, gwragedd yn gweithio'n galed i adeiladu cronfa ddŵr allweddol yn Zimbabwe. Gweld teuluoedd yn Nicaragua yn ailadeiladu eu bywydau ar ôl swnami a rhai yn Haiti yn symud i mewn i gartref o'u tai sianti ar ôl daeargryn anferth. Sylweddoli dylanwad ymgyrchoedd cymod, a ffoaduriaid yn dathlu cael mynd adref i Guatemala; cael eistedd o gwmpas ford bwyd gyda meddygon a oedd yn Israeliaid, a hynny mewn pentref a chymuned o Balestiniaid yng ngwlad yr Iesu.

Am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd, mae tlodi eithafol ar gynnydd yn y byd. Fyddi di'n colli gobaith weithiau?

Mae'n gallu bod yn anodd ac yn rhwystredig weithiau, ac mae rhywun yn cynhyrfu pan fydd gweithgarwch y cyfoethog yn effeithio'n andwyol ar y tlawd – fel gyda grawn ar hyn o bryd. Oherwydd y prinder, mae'r cyfoethog yn prynu'r cynnyrch heb ofidio bod y tlawd heb ddim, neu fod y pris y tu hwnt i gyrraedd y tlawd. Mae hyn wedi digwydd ynglŷn â'r brechlyn Cofid hefyd, lle mae'r gwledydd cyfoethog wedi meddiannu'r cyflenwadau. Er gwaethaf hynny, rhaid peidio colli gobaith ond dyfalbarhau yn y gwaith, gan gofio bod pob cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth. Rwy wedi sylweddoli bod Duw yn troi ein cyfraniadau bach ni i fod o fendith fawr i eraill. Nid gormod o dlodi yw problem fawr ein byd, ond effaith gormod o gyfoeth.

Rydyn ni'n byw mewn Cymru ôl-Gristnogol, medd rhai. Beth ydi rôl asiantaeth cymorth ryngwladol wedi ei seilio ar ffydd yn y Gymru fodern?

Mae Cymorth Cristnogol yn rhoi cyfle i eglwysi a Christnogion gydweithio a chyd-dystio i'w ffydd yn eu cymunedau. Gobeithio bod gwaith Cymorth Cristnogol yn ddatguddiad o Dduw ar waith yn y byd – tystiolaeth o gariad Duw mewn byd sy'n brin iawn o gariad. Rwy'n cofio clywed un o'n partneriaid ni o'r India yn ateb cwestiwn, 'Beth mae Cymorth Cristnogol yn ei olygu i chi sydd o ffydd arall?' A'i hateb hi oedd, 'Mae Cymorth Cristnogol yn rhoi heb ofyn am ddim yn ôl.' Duw ar waith.

Pa neges sydd gennyt ti i eglwysi Cymru wrth iti ymddeol?

Wel, dau beth – gair o ddiolch am bob cefnogaeth, am bob ymgyrch a chyfraniad, ond gair o anogaeth i barhau i wneud gwahaniaeth. Yr eglwysi yw Cymorth Cristnogol: ry'n ni fel mudiad yma yn llais i ddweud y stori ac yn freichiau i ymestyn cymorth yr eglwysi. Cofiwn mai'r eglwysi sy'n berchen ar Cymorth Cristnogol ac mai gwaith Duw yw'r cyfan. Cyfrannwch yn hael, ymgyrchwch yn gadarn a gweddïwch yn daer am lwyddiant. Bydd Duw yn bendithio'r gwaith.

Meddai Mari McNeill, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru:

'Bydd colled enfawr yng ngorllewin Cymru ar ôl Tom. Hoffwn ddiolch o galon iddo am ei gyfraniad mawr dros 29 o flynyddoedd a dymuno bendith Duw arno ef, Anona ei wraig, a'r teulu oll yn ei ymddeoliad.'

Er bod Tom yn ymddeol, bydd gwaith Cymorth Cristnogol yn parhau. Bydd y gwaith yng ngorllewin Cymru yn awr yn uno â'r de a'r gogledd.

Ychwanegodd Mari: 'Ry'n ni'n gwybod y bydd haelioni ein cefnogwyr yng ngorllewin Cymru yn parhau. Er mwyn eu cefnogi yn eu hymdrechion gofynnwn iddynt gysylltu â swyddfa genedlaethol Cymorth Cristnogol Cymru yng Nghaerdydd, a bydd Helen ac Eleri yn falch o allu helpu gydag unrhyw ymholiad.'

Gellir cysylltu â'r swyddfa drwy e-bostio cymru@cymorth-cristnogol.org neu drwy ffonio 029 2084 4646.

Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De
Cynhelir
ENCIL
dan arweiniad
Yr Archddiacon Eileen Davies
Sesiwn y Bore: Myfyrdod
Sesiwn y Prynhawn: Grwpiau Trafod
Dydd Iau, 22 Medi 2022
yng
Ngwesty'r Llwyniorwg
(Ivy Bush), Caerfyrddin
10.30–4 o'r gloch
Pris: £23
Cysylltwch drwy eich eglwys

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Er mwyn dy enw da

Roedd anrhydedd Duw, neu'n hytrach y modd y cafodd ei enw da ei sarhau, yn blino'r Salmydd wrth iddo wynebu amgylchiadau difaol a beryglai ei bobl.

Darllen: Salm 79:1–9 neu gellir cyd-ganu *Salmau Cân Newydd* https://www.bible.com/cy/bible/1364/PSA.79.SCN

Wrth i ni edrych ar ein hamgylchiadau fel capeli ac eglwysi heddiw, tybed i ba raddau y mae 'enw da' yr Arglwydd yn cael lle o gwbl yn ein trefniadau, ein meddyliau, ein gweddïau a'n dyheadau?

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, cyffeswn ger dy fron fod anrhydedd dy enw, dy foliant, dy glod, yn fynych yn cymryd lle eilradd pan fydd realiti 'pethau go iawn' ein byw beunyddiol yn llenwi ein bryd. Arglwydd, drwy dy Ysbryd Glân dyhëwn am gael gweld gwedd tywysog bywyd a chael cipdrem am ennyd o'th ogoniant. Byddai hynny, Arglwydd, y funud hon yn 'ddigon / ar y ffordd i enaid tlawd'. Arglwydd, clyw ni, er mwyn dy enw. Amen.

Emyn 320: 'Iesu, Iesu, rwyt ti'n ddigon'

Darllen: Luc 16:1–13 'Dameg y Goruchwyliwr Anonest'

Mae pennawd y darlleniad yng nghyfieithiad beibl.net yn cyfleu ergyd y ddameg yn glir iawn. Dameg ydyw am 'y fforman craff'. Felly, o ddilyn 'craffter' fel prif thema'r ddameg, canfyddwn ergyd gychwynnol yr adnodau.

Cyd-destun

Yn ei efengyl mae Luc eisoes wedi ein harwain i ystyried y gost, y llawenydd a'r fraint o fod yn ddisgybl i Iesu Grist. Defnyddiodd dair dameg – am arian coll, am ddafad goll, am fab coll – i egluro rhyfeddod gras y Duw a chwiliodd yn ddiarbed am y colledig yn Iesu Grist.

Picfforch yr efengyl

Felly, yn Luc fe welwn fod picfforch yr efengyl yn cydosod y gost o ufuddhau i'r alwad i fod yn ddisgybl ochr yn ochr â rhyfeddod gras. Mae gras, yn ôl Bonhoeffer, bob amser yn gostus i ni gan ei fod yn gofyn popeth gennym. Mae'n *gostus* am fod Iesu yn mynnu ein bod yn edifarhau a rhoi'r cyfan sydd gennym i'w ganlyn. Mae'n *rasol rad* i ni am mai gras yr Arglwydd Iesu Grist ydyw. Iesu, yr hwn a fu farw drosom ac a goncrodd angau drosom, yw'r hwn sy'n ein gwahodd ato.

Dysgeidiaeth am arian?

Bu cryn dipyn o drafod yn ystod y misoedd diwethaf am rai cytundebau (llwgr?) a wnaed gan y llywodraeth yn San Steffan mewn perthynas â darparu adnoddau digonol yng nghanol pla'r Covid. I ble'r aeth y £37 biliwn a roddwyd i sefydlu cynllun olrhain y llywodraeth? Bu llawer yn holi a lwyddodd cyfeillgarwch â rhai o weinidogion y llywodraeth rywsut i agor y drws i ennill ffafrau i gwmni oedd yn ddigon dinod cyn hynny?

Ar yr olwg gyntaf, ymwneud y mae'r ddameg hon ag arian, ac o'i darllen yn arwynebol mae'n ymddangos fel pe bai Iesu'n cymeradwyo twyll! Wedi'r cyfan, mae hyd yn oed meistr y gwas yn rhyfeddu at graffter ariannol ei fforman.

Edrych eto

Er mwyn i ni ddeall y ddameg hon, dameg y mae esbonwyr yn gytûn amdani ei bod yn anodd ei hegluro, bydd angen ychydig o wybodaeth gefndirol arnom.

Er na châi Iddewon godi llog ar fenthyciadau a wnaed ganddynt (Exodus 22:25; Lefiticus 25:36; Deuteronomium 23:19), roedd rhai wedi ceisio bod yn ddyfeisgar yn eu hesboniad a'u gweithrediad o'r gyfraith. Gwrthwynebu elwa ar y tlawd oedd diben y gyfraith, yn ôl rhai o'r Athrawon, ac felly, os codwyd llog ar bobl nad oeddynt yn anghenus, nid oedd hynny'n torri bwriad gwreiddiol y gyfraith. Gellid, mae'n ymddangos, ystyried benthyciad yn ddi-log os oedd gwerth yr ad-daliad yn cael ei fesur mewn gwerth olew a grawn.

Sylwn felly fod y 'meistr' yn y ddameg wedi gweithredu mewn dull oedd yr un mor 'graff' â'i stiward. Nid oedd gweithredoedd y meistr yn gyfan gwbl ffyddlon i'r gorchmynion. Lleihau'r 'llog', nad oedd gan ei feistr yr hawl i'w godi yn y lle cyntaf, oedd 'trosedd' y gwas.

Ni allai'r meistr ddwyn achos yn erbyn ei was heb ddatgelu bod ei ymdriniaeth ef ei hun o'r Gyfraith hefyd yn amheus!

Craffter y gwas oedd ei fod wedi ymateb i'r her i'w ddyfodol drwy ennill ffafrau gan y rhai a ad-dalodd eu dyledion yn gynnar. Gwnaeth hynny drwy newid amodau'r benthyciad, benthyciadau yr oedd ef ei hun wedi cytuno arnynt. Byddai'r gyfradd is yn sicr o gael ei chroesawu gan y dyledwyr, a thrwy'r ffafrau hynny sicrhaodd y gwas fod croeso iddo yn eu cartrefi wrth i'w amgylchiadau newid!

Bod yn gall

Felly dywedir bod ymateb 'plant y byd hwn yn gallach' am iddynt ymateb yn gyflym i'r heriau a'r newidiadau i'w hamgylchiadau er mwyn sicrhau eu lles bydol.

Awgrymwyd gan rai fod Iesu'n cyfeirio yn y ddameg at y Phariseaid a'r awdurdodau crefyddol, a'u diffyg ymateb i ddyfodiad y Meistr i'w plith. Craffter ysbrydol oedd sylweddoli bod yr awr wedi nesáu iddynt roi cyfrif am sut yr oeddynt hwy, fel stiwardiaid, wedi gofalu am adnoddau Duw. Byddai'r 'craff' yn eu plith yn paratoi'n briodol 'er mwyn i chwi gael croeso i'r tragwyddol bebyll'.

Ond sut, tybed, yr oedd 'plant y goleuni' yn defnyddio'u harian? A oeddynt hwythau yn gaeth i olud a Mamon, neu'n rhydd o'i grafangau?

Ffyddlondeb

Yn waelodol i hyn oll y mae perthynas y gwas a'i feistr. A yw'r gwas yn gweithredu gyda 'ffyddlondeb' i fuddiannau'r Meistr? A all y Meistr ymddiried ei gyfoeth i stiward annibynadwy? Sonia adn. 9 ymlaen am ein hagwedd ninnau tuag at bethau 'materol'? Ai Mamon 'anonest' yw ein meistr, neu a ydym yn bobl y gall yr Arglwydd ymddiried pethau 'mawr' bywyd i ni? Mae ein hagwedd at arian yn datgelu lle mae ein trysor go iawn a gafael cyfoeth Mamon yn datguddio pwy yw ein gwir feistr. Yn ôl Iesu, 'y pethau lleiaf' a ymddiriedir i ni yw Mamon, ac os na ddefnyddiwn y peth lleiaf yn gywir, nid ydym yn bobl y gall yr Arglwydd ymddiried bendithion mawr ei ras iddynt. Mae ein hagwedd ni at arian yn datgelu pwy rydym yn ymddiried ynddo, a phwy a beth yr ydym yn ei wasanaethu, go iawn. Dod i ben y mae dydd Mamon a pharhaol yw cyfoeth y 'tragwyddol bebyll'.

Gweddi

Geidwad sanctaidd, ein dyhead yw dy anrhydeddu di ym mhob rhan o'n bywydau. Dysga ni mai 'golud calon lan, rinweddol', sy'n 'dwyn bythol elw'. Dysga ni'n gynyddol i ymddiried ynot. Dysga ni beth yw ystyr cael ein rhyddhau gennyt, a hynny er mwyn i ni fyw er dy anrhydedd a'th glod. Amen.

Emyn 761: 'Dy garu di'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru